CYNGOR TREF RHUTHUN
RUTHIN TOWN COUNCIL

CYNGOR TREF RHUTHUN
22 o DACHWEDD 2021

ITEM 9

Cofnodion cyfarfod y **Pwyllgor Amwynderau** a gynhaliwyd
nos Lun 8 o Dachwedd 2021 am 7:30pm drwy Zoom.

YN BRESENNOL: Cynghorwyr Menna Jones (Cadeirydd), Anne Roberts, Stephen Beach, Jim Bryan, Rachel Lewington, Heather Williams, Christine Ellis, Gavin Harris and Mike van der Eijk

62. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
Dim

63. DATGAN BUDDIANNAU
Cyhoeddodd y Cynghorydd Rachel Lewington fuddiant ariannol yn eitem 7 (cofnod 68) fel perchennog busnes lleol.

64. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL
PENDERFYNWYD*: bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 4 o Hydref 2021 yn cael eu cadarnhau fel cofnod cywir.*

65. MATERION YN CODI
Cofnod 56. Prosiect Plannu Coed Aruthrol: Aildrefnwyd y plannu coed yn Llanfwrog o'r 13 Tachwedd i 27 Tachwedd.
Cofnod 57. Arwyddion cerdded: Roedd yr adborth a gafwyd yn gadarnhaol. Roedd cais wedi ei wneud gan breswylydd i ailystyried yr arwyddion ar Stryd y Castell; gall hyn fod yn bosibl maes o law.
Cofnod 58. Ymwybyddiaeth Sbwriel: Roedd disgyblion ysgolion cynradd lleol wedi bod yn brysur yn creu posteri ar gyfer yr ymgyrch ymwybyddiaeth sbwriel - byddai'r rhain yn cael eu harddangos yn yr Hen Lys a lleoliadau eraill maes o law.
Cofnod 59. Parcio yn Haulfryn: Roedd hyn yn parhau i fod yn broblem ac roedd angen mynd i'r afael ag ef yn briodol er mwyn preswylwyr a cherbydau brys.

66. PROSIECT GODI'R GWASTAD - DIWEDDARIAD
Derbynwyd diweddariad ar weithgareddau yn ymwneud â Dyfodol Ruthin a chais y Gronfa Codi'r Gwastad a oedd yn cael ei ddatblygu gan Weithgor Dyfodol Rhuthun. Roedd cyllideb dybiannol o £3m wedi'i nodi fel gwelliannau tir cyhoeddus ar gyfer Sgwâr San Pedr a'r strydoedd cyfagos, prosiect a oedd â chefnogaeth y Cynghorwyr Sir lleol. Roedd y Cyng Gavin Harris a Chlerc y Dref wedi cyfarfod â chwmnïau lleol a oedd wedi darparu mewnbwn proffesiynol, ddi-gost, yn benodol i gynorthwyo gyda nodi costau a'r camau priodol. Mae mewnbwn o'r fath yn helpu sicrhau bod unrhyw gais am gyllid yn dangos prosiect hyfyw sydd hefyd yn adeiladu ar adroddiadau ac arolygon blaenorol a gynhaliwyd yn y 1970au a'r 1990au.

Wedi’r cam dylunio a datblygu, bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal. Byddai gwelliannau Cae Ddol a mannau cysylltu hefyd yn sail i'r cais i'r Gronfa Codi’r Gwastad. Byddai'r cais yn canolbwyntio ar dreftadaeth Rhuthun ac yn ceisio sicrhau cysylltedd rhwng canol tref fywiog a'i graidd hanesyddol pwysig.

Bydd arddangosfa Dyfodol Ruthin, sydd i'w chynnal yn Yr Hen Lys, yn cynnwys gwybodaeth i’r cyhoedd o'r opsiynau sy'n cael eu hystyried ac yn ceisio eu barn a'u sylwadau.

Gwerthfawrogodd yr Aelodau y gwaith a wnaed gan y Cyng. Gavin Harris i hwyluso’r cais i’r Gronfa Codi’r Gwastad.
PENDERFYNWYD*: nodi'r diweddariad ar weithgareddau mewn perthynas â chais y Gronfa Codi’r Gwastad a chefnogi'n llawn y cynigion ar gyfer gwelliannau i'r tir cyhoeddus ar gyfer Sgwâr Sant Pedr a'r strydoedd cyfagos, ynghyd â gwelliannau ar gyfer Cae Ddol ac ardaloedd cysylltu.*

67. YMGYNGHORIAD PROSIECT CREU COETIROEDD

Rhoddwyd ystyriaeth i arolwg cyhoeddus Cyngor Sir Dinbych a geisiodd farn ar greu pedwar safle coetir yn Sir Ddinbych, a oedd yn cynnwys Stryd Llanrhydd a Cae Ddol yn Rhuthun. Dywedodd yr aelodau y gallai'r prosiect arfaethedig yn Stryd Llanrhydd fod yn fwy uchelgeisiol ac adlewyrchu hanes yr ardal a oedd yn cynnwys hen safle'r wyrcws (credwyd bod gatiau gwreiddiol y wyrcws wedi aros ar y safle). Gellid creu parthau i adleisio'r groes a'r cwrtiau a ffurfio ystafelloedd dosbarth awyr agored. Roedd yn hanfodol nad oedd unrhyw gynigion ar gyfer Cae Ddol yn tanseilio unrhyw gynllun lliniaru llifogydd posib; deallwyd yr ymgynghorwyd a Chyfoethe Naturiol Cymru a bod y coetir arfaethedig wedi'i leoli o leiaf 8 metr o'r afon. Nododd cynghorwyr amserlen fer y cyfnod ymgynghori a mynegwyd y farn bod angen ymgynghori yn briodol gyda’r cyhoedd â chynigion o'r fath.

Dywedwyd bod y llyn yng Nghae Ddol yn fwyfwy blêr a chynigiwyd y dylid mynegi pryderon am y llyn i'r Swyddog Cefn Gwlad yng Nghyngor Sir Ddinbych.
PENDERFYNWYD*: bod y sylwadau'n cael eu cyfleu fel rhan o'r broses ymgynghori ac y dylid anfon llythyr at y Swyddog Cefn Gwlad y Cyngor Sir yn mynegi pryderon am gyflwr y llyn yng Nghae Ddol.*

68. CYNNAL A CHADW FFYRDD YN RHUTHUN

Adroddodd y Cyng Heather Williams, ar ôl cylchredeg yr hysbysiad cau ffyrdd ar gyfer Stryd Clwyd, bod Cyngor Sir Dinbych wedi cael gwybod am ddigwyddiadau a gynlluniwyd yn y dref ar gyfer diwedd mis Tachwedd a dechrau mis Rhagfyr. Roedd y gwaith ffordd arfaethedig ar Stryd Clwyd bellach wedi'i drefnu ar gyfer Ionawr 2022. Roedd gwaith adferol ar y ffordd i'w wneud yn Sgwâr San Pedr ar noson yn ystod yr wythnos i ddod, a chroesawyd hynny. Roedd Cyngor Sir Dinbych bellach yn darparu amserlen waith fisol, ond roedd yn amlwg nad oedd yr amserlen gyfredol wedi cynnwys yr holl weithgaredd posib e.e. Stryd y Castell. Amlygwyd hefyd bod arwyddion cau ffyrdd ar gyfer Stryd y Farchnad wedi'u lleoli yn y dref - roedd angen eglurhad o'r gwaith hwn ar hyn o bryd. Byddai ail-wynebu Lon Fawr gan yr Asiantaeth Cefnffyrdd yn dargyfeirio traffig ar hyd Ffordd Corwen, Stryd y Castell a Stryd y Farchnad. Codwyd pryderon ynghylch y gwyriad hwn o ystyried bod facia ‘Hearshop’ wedi’i ddifrodi’n ddiweddar.

Dywedwyd wrth yr aelodau fod y Cyng Heather Williams yn ceisio eglurhad ar gau ffyrdd penodol a dargyfeiriadau gan Aelodau a Swyddogion Cyngor Sir Dinbych.
PENDERFYNWYD*: nodi'r gweithgaredd cynnal a chadw ffyrdd arfaethedig yn Rhuthun a nodi y disgwyliwyd eglurhad gan Gyngor Sir Dinbych ar ymholiadau penodol.*

69. CWNINGAR Y CASTELL

Nododd yr aelodau fod rhan o'r wal ar hyd Cwningar y Castell wedi cwympo'n agos iawn at hen leoliad mainc gyhoeddus. Roedd y llwybr wedi cael ei chau gan Gyngor Sir Dinbych. Deallwyd bod y rhwymedigaeth yn gorwedd gyda'r tirfeddiannwr. Mynegwyd pryderon ynghylch cyflwr presennol

y wal a chytunwyd, fel y trafodwyd gan y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu, y dylid cysylltu â'r Cyngor Sir i ofyn am gynnal arolwg llawn ac asesiad risg o'r wal ar hyd Cwningar y Castell a chyhoeddi adroddiad. Nodwyd bod CADW wedi cael eu hysbysu am y sefyllfa.
***PENDERFYNWYD**:* i gysylltu â Chyngor Sir Dinbych i ofyn am gynnal arolwg llawn ac asesiad risg o'r wal derfyn Cwningar y Castell a chyhoeddi yr adroddiad.

70. CAIS AM GYLLID I WELLA MANNAU AGORED AC ARDALOEDD CHWARAE YN SIR DDINBYCH

Nodwyd bod swm cymudedig o £71,765 ar gael i Rhuthun ar gyfer gwella mannau agored a mannau chwarae. Roedd trigolion lleol wedi cael gwybod am y cyllid posib ac fe'u hanogwyd i ystyried gwneud cais. Ystyriwyd ei bod yn briodol bod gwelliannau Cae Ddol yn canolbwyntio ar geisio cyllid trwy'r Gronfa Codi'r Gwastad ehangach. Byddai'r Cyngor Tref yn cefnogi grwpiau lleol a / neu breswylwyr gyda cheisiadau, fel sy'n briodol.
PENDERFYNWYD: *nodi argaeledd swm cymudedig o £71,765 ar gyfer Rhuthun a chefnogi grwpiau lleol a / neu breswylwyr gyda cheisiadau, fel y bo'n briodol.*

71 TREF TACLUS

Ystyriwyd cynllunio gweithgareddau Tref Taclus o Wanwyn 2022.
PENDERFYNWYD: *cynllunio gweithgareddau Tref Daclus o wanwyn 2022.*

72. Y GOEDEN A GOLEUADAU NADOLIG RHUTHUN

Ystyriodd yr aelodau y dyfynbrisiau a dderbyniwyd gan fusnesau i gyflenwi'r Goeden Nadolig a gosod a thynnu'r goleuadau Coeden Nadolig ar gyfer 2021. Dosbarthwyd y dyfynbrisiau i Aelodau'r Pwyllgor cyn y cyfarfod.

Derbyniwyd pris gan Dr. Peter Spencer, Cambrian Woodland Services o £525.00 am Goeden Nadolig 25 troedfedd ar Sgwar San Pedr. Nid oedd dau gwmni arall y cysylltwyd â hwy am ddyfynbris wedi ymateb.

Cysylltwyd â thri chwmni am ddyfynbrisiau ar gyfer gosod a dadosod y goleuadau ar y Goeden Nadolig. Roedd y tri wedi ymateb; nid oedd un mewn sefyllfa i rhoi pris eleni. Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y dyfynbrisiau canlynol ar gyfer gosod a symud y goleuadau ar y Goeden Nadolig:

- Kellectrics: £ 1400.00 cyn TAW
- KMT Trydanol: £ 965.00 + TAW

PENDERFYNWYD:
(i) derbyn y pris am ddarpariaeth, tynnu a chael gwared ar goed Nadolig gan Cambrian Woodland Services*; a*
(ii) derbyn y pris am osod a dadosod y goleuadau ar y Goeden Nadolig o KMT Electrical.

73. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

***PENDERFYNWYD**: mai nos Lun 6 o Ragfyr 2021 y cynhelir y cyfarfod nesaf am 7.30 pm.*